OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2983 (Cy.260)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - - 10 Tachwedd 2009
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 11 Tachwedd 2009
Yn dod i rym - - 2 Rhagfyr 2009

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 13, 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt(**2**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygio) 2009 a deuant i rym ar 2 Rhagfyr 2009.

Diwygio

2. Diwygier Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007(**3**) fel a ganlyn.

3. Yn Rhan CH o Atodlen 1 (swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod), hepgorer paragraff 18.

4. Yn Atodlen 2 (swyddogaethau y caniateir iddynt fod, ond nad oes angen iddynt fod, yn gyfrifoldeb gweithrediaeth awdurdod)—

(a) yn lle paragraff 18 rhodder—

"**18.** Unrhyw un neu unrhyw rai o'r swyddogaethau canlynol o ran priffyrdd—

(a) gwneud cytundebau ar gyfer gwneud gwaith priffyrdd(**4**);

(**1**) 2000 p.22.
(**2**) Mae pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 2007/399 (Cy. 45).
(**4**) Amnewidiwyd adran 278 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (p.66) gan adran 23 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22).

(b) y swyddogaethau a geir yn narpariaethau canlynol Rhan III o Ddeddf Priffyrdd 1980(**5**) (creu priffyrdd)—

(i) adran 25 — creu llwybrau troed, llwybrau ceffylau neu gilffyrdd cyfyngedig drwy gytundeb;

(ii) adran 26 — pwerau gorfodol ar gyfer creu llwybrau troed, llwybrau ceffylau neu gilffyrdd cyfyngedig;

(c) y swyddogaethau a geir yn narpariaethau canlynol Rhan VIII o Ddeddf Priffyrdd 1980 (cau priffyrdd a gwyro priffyrdd etc)(**6**)—

(i) adran 116 — pŵer llysoedd ynadon i awdurdodi cau priffordd neu wyro priffordd;

(ii) adran117 — cais am orchymyn o dan adran 116 ar ran person arall;

(iii) adran 118 — cau llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig;

(iv) adran 118ZA — cais am orchymyn diddymu llwybr cyhoeddus;

(v) adran 118A — cau llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig sy'n croesi rheilffyrdd;

(vi) adran 118B — cau priffyrdd penodol at ddibenion atal troseddau etc;

(vii) adran 118C — cais gan berchennog ysgol am orchymyn diddymu arbennig;

(viii) adran 119 — gwyro llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig;

(ix) adran 119ZA — cais am orchymyn gwyro llwybr cyhoeddus;

(x) adran 119A — gwyro llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig sy'n croesi rheilffyrdd;

(xi) adran 119B — gwyro priffyrdd penodol at ddibenion atal troseddau etc;

(xii) adran 119C — cais gan berchennog ysgol am orchymyn gwyro arbennig;

(xiii) adran 119D — gwyro priffyrdd penodol ar gyfer gwarchod safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig;

(xiv) adran 120 — arfer pwerau i wneud gorchmynion diddymu a gwyro llwybrau cyhoeddus;

(xv) adran 121B — cofrestr ceisiadau;

(ch) y swyddogaethau a geir yn narpariaethau canlynol Rhan IX o Ddeddf Priffyrdd 1980 (ymyrraeth gyfreithlon ac anghyfreithlon â phriffyrdd a strydoedd)—

(i) adran 130 — amddiffyn hawliau cyhoeddus;

(ii) adran 139 — rheoli sgipiau adeiladwyr;

(iii) adran 140 — symud sgipiau adeiladwyr i ffwrdd;

(iv) adran 140A(**7**) — sgipiau adeiladwyr: ffioedd am feddiannu'r briffordd;

(v) adran 142 — trwydded i blannu coed, llwyni etc mewn priffordd;

(**5**) 1980 p.66.

(**6**) Mewnosodwyd adrannau 118ZA, 118B, 118C, 119ZA, 119B, 119C, 119D a 121B gan adran 57 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.37) a Rhan 1 o Atodlen 6 iddi. Mewnosodwyd adrannau 118A a 119A gan adran 47 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 (p.42), ac Atodlen 2 iddi.

(**7**) Mewnosodwyd adran 140A gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) (adran 168 a Rhan 1 o Atodlen 8).